



2023



Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS


Pecyn Cynllun Cysgodi

Gwobrau Tir na n-Og 2023

Categori Uwchradd

Cynnwys

Llyfrau'r Rhestr Fer	2
Sbardun Sgwrs:	3
Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth	
Sbardun Syniadau:	4
Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg	
Adnabod Awdur	
Manon Steffan Ros	7
Alun Davies	9
Wyn Mason	11
Y Beirniaid	13
Sylwadau'r Beirniaid	14
Tudalen Nodiadau	17
Matrics Sgorio	18
Cardiau Pleidleisio	19
Chwilair	20




Gwlad yr Asyn

Nofel graffig

Awdur: Wyn Mason

Darlunydd: Efa Blossie Mason
(Gwasg Carreg Gwalch)

Dyma stori â phrif gymeriad unigryw iawn: asyn dof sydd â hunanddelwedd gam. Mae hi wedi arfer â byd pobl gan ei bod wedi cael ei magu gan ei mam-gu mewn tŷ, felly, er mai asyn ydyw, mae'n uniaethu'n llwyr â bodau dynol. Oherwydd hynny, mae hi'n meddwl bod asynnod eraill yn hollol wirion!



Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor

Ffuglen

Awdur: Manon Steffan Ros
(Y Lolfa)

Mae pawb yn y pentref yn gyfarwydd â hanes Edward Powell – un o gyndeidiau Elis, y prif gymeriad. Mae Elis bob amser wedi teimlo ei fod e'n byw dan gysgod yr enw 'Powell'. Dilynwch Elis a'i daid wrth iddyn nhw fynd ar daith i Virginia yn yr Unol Daleithiau i ddysgu mwy am fywyd Edward Powell – ond oes mwy i'r hanes?



Manawydan Jones – Y Pair Dadeni


Ffuglen

Ffantasi

Awdur: Alun Davies
(Y Lolfa)

Yn y nofel hon rydym yn cwrdd â bachgen ifanc o'r enw Manawydan Jones. Mae Manawydan yn wahanol i'r plant eraill mae'n eu hadnabod yn yr ysgol – ond dydi hynny ddim yn beth drwg. Dyna beth sy'n ei wneud e'n arbennig ... yn ogystal â'r ffaith ei fod yn perthyn i Manawydan fab Llŷr o'r Mabinogi. Y sylweddoliad hwn yw dechrau'r antur gyffrous.

Cofiwch fod y llyfrau ar gael yn ddigidol ar ffurf e-lyfrau hefyd!
Ewch i www.gwales.com am fwy o wybodaeth.




Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Ydych chi'n credu bod teitl y stori'n gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fydddech chi'n galw'r llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, a fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio arni? Ym mha ffordd?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi am y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?



Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg



Powell
gan Manon
Steffan Ros

Beth am ... Ymchwilio

Mae'r llyfr yn sôn am gymeriad hanesyddol o'r enw Elis Powell, oedd yn cael ei weld fel arwr am ei fod wedi rhoi arian i

adeiladu ysgol ac ysbyty yn Nhrefair. Rydym hefyd yn darganfod bod hanes digon tywyll gan y dyn hwn a'i fod wedi bod yn berchen ar gaethweision, felly nid yw'n arwr o gwbl. Rhaid i bobl Trefair ystyried beth i'w wneud gyda'r cerflun ohono sy'n sefyll yn y dref.

Mae hon yn sefyllfa sydd wedi codi mewn nifer o lefydd yng Nghymru a thu hwnt yn ddiweddar, yn dilyn ymgyrch Black Lives Matter.

Beth am ymchwilio i hanes ...

- Cerflun Syr Thomas Picton yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin
- Cerflun H. M. Stanley yn Ninbych
- Cerflun Edward Colston ym Mryste
- Teulu Pennant, Castell Penrhyn a Chwarel y Penrhyn.

Trafod

Oes angen cadw'r cerfluniau yn eu lle ond rhannu gwybodaeth am y pethau da a'r pethau drwg wnaeth yr unigolion hyn?

Beth ddylen ni ei wneud gyda cherfluniau a chofebau i bobl fel hyn?

Oes angen eu dymchwel a'u taflu?

Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu rhestr o resymau o blaid ac yn erbyn cadw cerfluniau fel hyn yn eu lle?

Rhesymau o blaid cadw cerflun	Rhesymau dros gael gwared ar gerflun

Beth am chwarae rôl?

Y gadair boeth ...

Beth am eistedd yn y 'gadair boeth' a chwarae rôl cymeriad o *Powell* neu gymeriad hanesyddol, e.e.

- Elis Powell (ifanc)
- Elis Powell (hen)
- Caethwas
- Syr Thomas Picton

Gall gweddill y dosbarth ofyn cwestiynau.


Defnyddio technoleg

Beth am recordio monolog neu ymson un o'r cymeriadau trwy ddefnyddio rhaglen sgrin werdd neu ap addas?

Beth am chwarae rôl?

Petai cerfluniau o unigolion oedd yn gysylltiedig â chaethwasiaeth yn cael eu tynnu i lawr, beth fydddech chi'n ei roi ar y plinth gwag?

Dyluniwch rywbeth newydd i'w roi yn y bwllch.





Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

Gwlad yr Asyn gan Wyn Mason

Beth am ...

Creu

Mae Efa Blossie Mason, darlunydd y llyfr, yn artist/animeiddwraig. Edrychwch ar y darluniau yn y llyfr:

- Pa fath o liwiau a ffurfiau sydd yma?
- Beth yw arddull Efa?
- Sut mae hi'n cyfleu emosiwn a theimlad yn y cymeriadau?
- Ydych chi'n gweld y llyfr yn gweithio fel animeiddiad? Pam hynny?

Trafod

Un o themâu'r llyfr yw 'perthyn' neu 'ffitio i mewn'.


Nid yw Ari yn teimlo ei bod yn gallu ffitio i mewn i fywyd anifeilaidd asynnod eraill. Nid yw Cal yn teimlo ei fod yn gallu ffitio i mewn i fywyd pobl eraill chwaith.

Beth mae 'perthyn' neu 'ffitio i mewn' yn ei olygu i chi?

Oes pwysau ar bobl ifanc i 'ffitio i mewn'?

Beth yw eich barn?

Ydi *Gwlad yr Asyn* yn llyfr i blant, pobl ifanc neu oedolion? Rhowch resymau dros eich ateb.



Ysgrifennu

Mae Ari yn ymddwyn yn debycach i fod dynol nag asyn. Beth yw'r pethau 'dynol' y mae Ari yn eu gwneud?

Mae Cal yn ymddwyn yn fwy 'gwyllt'. Sut mae'n dangos hyn?

Gwnewch restr o nodweddion Ari a nodweddion Cal, neu ysgrifennwch bortread ohonynt.

Gwranddo

Cafodd drama lwyfan *Gwlad yr Asyn* ei pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022.

Sganiwch y cod QR ar dudalen 190 i gael clywed rhai o ganeuon y sioe.

Gwranddo

Edrychwch ar y llun o Ari a Cal yn dianc ar dudalen 127. Dydi Ari ddim yn gallu croesi'r llinell wen.

Beth am greu llinell eich hun yn y dosbarth?

Gall un neu ragor ohonoch sefyll ar ochr Ari yn dweud y rhesymau pam nad ydi hi am groesi'r llinell. Gall un neu ragor sefyll ar ochr Cal yn ceisio perswadio Ari i groesi'r llinell.



Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

Manawydan Jones – Y Pair Dadeni gan Alun Davies

Beth am ... Trafod

Yn y llyfr mae brwydr rhwng y 'da' a'r 'drwg' (y Cyfeillion a'r Marchogion).

Dyma thema sy'n gyffredin iawn mewn llenyddiaeth ar hyd yr oesoedd.

Meddyliwch am lyfrau, straeon, rhaglenni, ffilmiau neu gemau lle y mae gwrthdaro rhwng y 'da' a'r 'drwg', e.e. *Star Wars*, *Henri Helynt*.

Beth am ysgrifennu rhestr ohonyn nhw?

Beth am wneud rhestr o gymeriadau 'da' a chymeriadau 'drwg'?

Beth yw nodweddion y ddwy ochr?

Da	Drwg
Manawydan	Gweuflyn
Batman	Joker
Rala Rwdins	Strempa

Ymchwilio

Daw Manawydan a'r pair dadeni o stori Branwen Ferch Llŷr, un o Bedair Cainc y Mabinogi.

Beth am ddargafod mwy am Manawydan fab Llŷr? Pwy oedd ei frodyr (da a drwg) a'i chwaer enwog? Beth ddigwyddodd iddyn nhw? Beth oedd y pair dadeni a pham oedd byddinoedd wedi brwydro drosto?

Creu

Dyma ddisgrifiad Pritch o'r **pair dadeni** (tud 53):

"Crochan mawr – fel crochan gwrach, ond lot mwy – wedi ei swyno gan hud a lledrith cryf oedd y Pair. Yn syml, mi fyddet yn cynnu tân o dan y Pair, gosod corff marw ynddo fe, a

bydde'r swyn yn dod â'r corff 'nôl yn fyw. Allai di ddychmygu pa mor werthfawr oedd rhywbeth fel hyn?"

Beth am ddychmygu sut oedd y pair yn edrych a thynnu llun ohono? Gallwch wneud hyn ar bapur neu'n ddigidol.

Beth yw ei faint a'i siâp?

- Oes coesau neu ddolenni arno?
- Beth yw lliw'r pair ac o beth mae e wedi cael ei wneud?
- Oes patrwm, lluniau neu addurn arno?
- Sut fyddai'r hud a'r lledrith yn ei amlygu ei hun?

Darllen a thrafod

Dyma esboniad Pritch o'r 'Gallu' sydd yn rheulu Manawydan (tud 28):

"... mae'n anodd esbonio beth yn union yw'r Gallu. Dwi ddim yn ei ddeall e'n iawn – does neb. Dyna'r enw sydd wedi cael ei roi iddo fe, yr ... y pŵer yma. Roedd e'n rhywbeth tu hwnt i reswm ... tu hwnt i natur mewn ffordd. Roedd rhywun oedd â'r Gallu yn wahanol i bron pawb arall, yn sefyll ar wahân, yn fwy nerthol a phwerus. Ond beth sy'n ei wneud e'n anodd esbonio yw nad oedd un ffordd arbennig roedd y Gallu'n ymddangos. Roedd pob un yn wahanol. Mewn ambell un roedd e'n golygu cryfder corfforol anhygoel, fel Bendigeidfran. Mewn rhai eraill, fe allai fod yn allu gydag arf – cleddyf, neu bwa a saeth falle. Roedd rhai yn gyfrwys, gyda meddwl chwim, oedd yn gallu gweld a manteisio ar unrhyw fan gwan. Roedd un neu ddau hyd yn oed wedi meistrolï hud a lledrith."

Petaech chi'n darganfod bod gennych y Gallu, pa bwerau neu nerth fydddech chi'n hoffi eu cael?

Gallwch dynnu llun ohonoch â'ch gallu, neu ysgrifennu disgrifiad.



Manon Steffan Ros



Tudalen 7

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ges i 'ngeni yn Rhiwlas, pentref bach yn y tir uchel yn ymyl Bethesda.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Gynradd Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen, a dwi'n ddiolchgar iawn 'mod i wedi cael mynd i ysgolion mor wych.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoffi'r rhan fwyaf o bethau am yr ysgol – gweld fy ffrindiau, y gwaith darllen a sgwennu, a'r holl hwyl oeddwn i'n ei gael! Ond do'n i ddim yn hoff iawn o wersi ymarfer corff na mathemateg (sy'n drueni, achos dwi'n mwynhau'r rheiny rŵan).

Beth oeddech chi eisïau bod ar ôl tyfu i fyny?

Awdur! Ro'n i'n caru llyfrau erioed, ac yn licio meddwl am fy straeon bach fy hun, ond doeddwn i ddim yn meddwl fod bod yn awdur yn job go iawn. Dwi'n ddiolchgar iawn, iawn bob dydd 'mod i'n awdur erbyn hyn, y job ora' erioed!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Roedd gen i athrawes wych iawn ym Mlynnyddoedd 5 a 6, sef Gwenno Jones, ac roedd y llyfrau roedd hi'n eu darllen i ni wastad yn dal fy nychymyg.



Dwi'n benodol yn cofio O'r Tywyllwch gan Mair Wynn Hughes a *The Iron Man* gan Ted Hughes. Ond dwi'n meddwl mai fy hoff lyfr pan oeddwn i'n blentyn ydi fy hoff lyfr i hyd heddiw, sef *Boy* gan Roald Dahl. Dwi'n meddwl y byd o'r llyfr yna.

Beth yw eich diddordebau?

Dwi wrth fy modd yn darllen, wrth gwrs, ond dwi'n licio gwylio pethau ar y teledu hefyd, yn aml ryw rwtsh ar YouTube! Mae coginio'n ddiddordeb mawr gen i hefyd, a phêl-droed. Dwi'n ffan mawr o LFC – tîm Lerpwl – ac yn licio mynd i Anfield pan ga i gyfle!

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Cerdded! Dwi wrth fy modd yn mynd am dro ar benwythnos, ac yn aml dwi'n cael syniadau

am straeon wrth grwydro'r mynyddoedd neu goedwigoedd. Mae fy meibion yn fy ngwneud i'n hapus iawn, iawn hefyd. Maen nhw'n gwmni mor dda, yn ddigri ac yn ddifyr, a dwi'n mwynhau sgwrsio efo nhw am eu bywydau a'r pethau sydd ar eu meddyliau nhw.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Annhegwch. Os oes 'na bobol sydd ddim yn cael eu trin yn iawn, neu bobol yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd. Ond dwi ddim yn dda iawn am fod yn flin, dwi'n llawer mwy tebygol o fod yn drist na gwylltio.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Dwi ddim yn cofio peidio meddwl am sgwennu, a dweud y gwir! Mae 'na straeon wedi bod yn fy mhen i erioed.

Manon Steffan Ros



Tudalen 8

Ond dwi'n meddwl 'mod i wedi dechrau meddwl o ddifri am sgwennu straeon mewn llyfr pan ges i'r plant, am 'mod i eisiau sgwennu pethau iddyn nhw.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?


Bob man! Yn aml iawn wrth gerdded, neu o sgysiau dwi'n eu cael efo pobol, neu o bodlediadau neu raglenni radio dwi'n gwrandao arnyn nhw. Dydi cael y syniad ddim yn broblem – mae gen i ormod! Y tric ydi penderfynu pa rai fydd yn gweithio fel llyfr.

Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Dwi'n licio sgwennu am bobol ifanc, achos dwi'n meddwl ei fod o'n gyfnod diddorol, cyffrous ond anodd iawn mewn bywyd. Mae disgwyl i bobol ifanc ymddwyn yn aeddfed fel oedolion, ond does ganddyn nhw mo'r un rhyddid ag oedolion. Mae hynny'n teimlo braidd yn annheg i mi weithiau!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Cofiwch fod pob awdur yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, a does 'na ddim ffordd anghywir o adrodd stori. Mae rhai awduron yn gwneud cynllun pendant cyn sgwennu gair, a rhai eraill, fel fi, yn



dechrau sgwennu heb syniad yn y byd beth fydd yn digwydd yn y llyfr. Peidiwch â phoeni am bethau felly ... a mwynhewch!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau ydi'r ffaith 'mod i'n gwneud straeon drwy'r dydd, bob dydd! Y peth gwaethaf ydi 'mod i'n mynd braidd yn obsesiynol am waith ac felly weithiau'n aros i fyny tan yr oriau mân yn sgwennu ... ond dwi fel cadach y diwrnod wedyn!

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Boy gan Roald Dahl ac O'r Tywyllwch gan Mair Wynn Hughes.

Hoff gymeriad o lyfr?

Mae'n anodd iawn dewis ond dwi'n edmygu Efa o gyfres y Melanai gan Bethan Gwanas yn fawr.

Hoff fwyd?

Bounties, madarch a bresych. Dim efo'i gilydd!

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Jurassic Park.

Hoff air?

Trugaredd.

Y superpower fydddech chi'n ei ddewis?

Dwi'n meddwl 'sw'n i wir yn mwynhau'r teimlad o allu hedfan.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Twitter a TikTok.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Jôcs gwael Dad.

Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?

Bod yn awdur YDI fy swydd ddelfrydol ond fel arall, 'sw'n i'n licio bod yn hanesydd.

Top tip i ddarpar awduron:

SGWENNWCH!



Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr.

Stori sy'n cyfuno elfennau o ffantasi a stori dditectif yw hi. Mae'n dilyn bachgen mud pymtheg oed o'r enw Manawydan Jones sy'n darganfod ei fod yn perthyn i un o'r arwyr yn chwedlau'r Mabinogi. Mae Manawydan yn dod i sylweddoli bod yr arwyr hyn yn parhau i ymladd yn erbyn eu gelynion hyd heddiw, a bod yr amser wedi dod iddo ymuno yn y frwydr. Mae yna lofruddiaethau, tensiwn, brad, ymladd ac ynys anghysbell – a llawer mwy!

Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?

Anodd ar adegau – ar un pwynt wnes i sylweddoli 'mod i wedi mynd ar hyd y trywydd anghywir, ac yn gorfod cael gwared ar ddeng mil o eiriau, ond roeddwn i'n teimlo'n gryf bod y stori yn un dda, a dwi'n falch iawn 'mod i wedi ei dweud hi.

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Aberystwyth.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Gyfun Penweddig.



Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i'n hoffi'r ysgol. Roedd e'n gyfle i fod gyda ffrindiau ac roeddwn i'n mwynhau'r gwersi, ar y cyfan. Ond petawn i'n gorfod dewis rhywbeth roeddwn i'n ei gasáu, baswn i'n dweud gwersi celf. Doedd gen i ddim talent bryd hynny, a does gen i ddim nawr chwaith!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Lot o bethau – meddyg, pêl-droediwr, newyddiadurwr. Ond roeddwn i'n ffodus i ddarganfod 'mod i'n hoffi gweithio gyda chyfrifiaduron yn yr ysgol, a dyna dwi'n ei wneud o ddydd i ddydd nawr.



Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

The Lord of the Rings.

Beth yw eich diddordebau?

Rhedeg, beicio, a dilyn unrhyw fath o chwaraeon.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Teulu, ffrindiau, gweld tîm Cymru yn ennill.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Pobol sy'n siarad gormod heb ddweud unrhyw beth o werth.



Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Dwi wedi mwynhau ysgrifennu erioed, ond un diwrnod yn 2016 roedd gen i brynhawn tawel, ac eisteddais i lawr wrth y gliniadur a dechrau ar nofel dditectif. Ers hynny dwi wedi cyhoeddi pedair nofel, ac mae pumed ar y ffordd yn fuan. Gyda llyfr *Manawydan Jones*, ar ôl ysgrifennu'r drioleg o lyfrau dditectif, penderfynais y byddwn i'n hoffi trio rhywbeth gwahanol y byddai fy mhylant yn gallu ei fwynhau.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Pan dwi allan yn rhedeg mae'r syniadau yn dod fel arfer – mae'n amser da i feddwl am blot neu gymeriadau.

Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Dwi'n trio creu straeon cyffrous gyda chymeriadau gafaelfgar, ac mae'r themâu yn dilyn yn naturiol wedyn. Ond dwi'n hoffi dweud straeon sydd ddim yn ddu a gwyn – straeon lle mae pobl dda yn gallu gwneud pethau drwg, a phobl ddrwg yn gwneud pethau da.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Peidiwch stopio. Mae'n syndod faint o bethau anodd gallwch chi eu cyflawni os ydych chi'n styfnig ac yn gwrthod rhoi'r gorau iddi. Mae hyn yn wir am fywyd yn gyffredinol yn ogystal ag ysgrifennu.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y pethau gorau yw'r cyffro o feddwl am stori newydd, a chlywed bod rhywun wedi mwynhau eich llyfr chi – mae gwybod bod eich stori chi wedi gwneud rhywun yn hapus yn deimlad ffantastig. Y peth gwaethaf yw'r oriau hir o fynd dros y llyfr eto ac eto i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn.



Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

The Lord of the Rings.

Hoff gymeriad o lyfr?

Severus Snape o'r llyfrau Harry Potter.

Hoff le?

Efrog Newydd.

Hoff fwyd?

Byrger gyda lot o gaws, a llwyth o sglodion.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Succession ar y teledu, a'r ffilmiau *Zodiac* a *Seven*.

Hoff air?

Bendramwnwgl.

Y superpower fydddech chi'n ei ddewis?

Gallu chwarae gydag amser – ei stopio, a'i symud 'mlaen ac yn ôl.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Twitter.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Fy ffrindiau'n gwneud hwyl am ben ei gilydd.

Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?

Ysgrifennu am chwaraeon i bapur newydd, neu bêl-droediwr o fri!

Top tip i ddarpar awduron:

Jyst. Peidiwch. Stopio.



Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr.


Nofel graffig yw hi, am asyn a gafodd ei fagu gan hen fenyw fel petai'n berson. O ganlyniad, er bod ganddo gorff asyn mae'n meddwl fel bod dynol. Yn y bôn, mae'r stori'n ymwneud â bod yn driw i'n natur ni ein hunain, a pheidio gadael i eraill ein darbwylllo ni'n wahanol. Cafodd ei pherfformio fel drama lwyfan yn gyntaf, cyn cael ei chyhoeddi fel nofel graffig. Fy merch, Efa Blosse Mason, ddarluniodd y lluniau.

Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?

Roedd cydweithio gydag Efa yn brofiad arbennig, gan mai dyma'r tro cyntaf inni weithio'n broffesiynol gyda'n gilydd. Wrth weithio ar y gyfrol, roedd rhaid inni addasu ein perthynas tad-a-merch ychydig i fod yn un awdur-a-darlunydd, a doedd hynny ddim wastad yn syml! Ond yn gyffredinol, daethon ni ymlaen yn wych. Roedd gweld y cymeriadau'n dod yn fyw gam wrth gam, wrth i Efa ddarlunio'i ffordd drwy'r sgript, yn hynod gyffrous.

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ges i 'ngeni yn Aberystwyth a fy magu ar ffarm y tu fas i Lanfarian.



Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Gynradd Llanfarian ac yna Ysgol Gyfun Penweddig.

Beth oeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoff iawn o fy ffrindiau a'r ochr gymdeithasol o fywyd ysgol, ac ym Mhenweddig ro'n i'n dwlu ar y gwersi celf. Ond ro'n i'n casáu'r creulondeb a oedd i'w weld weithiau, a hynny o ran y disgyblion a'r athrawon.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Artist.

Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?

Mwynheais *Y Mwg Melys* gan Ifor Wyn Williams a *Bob yn y Ddinas* gan Siôn Eirian pan o'n i yn fy arddegau hwyr.

Beth yw eich diddordebau?

Mae'n debyg 'mod i wedi cael cryn dipyn dros y blynyddoedd: peintio, ffotograffiaeth, ffilmiau, cerddoriaeth, mynd i'r theatr, darllen (wrth gwrs!), cerdded, chwaraeon, teithio, dysgu ieithoedd, gwirfoddoli yn y parc.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Y rhyddid i fod yn chwareus.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Anallu dynoliaeth i fyw ar y blaned mewn ffordd heddychlon, deg a chynaliadwy.



Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?


Dechreuais i ysgrifennu gyntaf trwy wneud ffilmiau byrion, sef ysgrifennu sgriptiau ac wedyn eu ffilmio. Yna dechreuais i feddwl am ysgrifennu dramâu llwyfan rhyw ddeng mlynedd yn ôl.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Dwi'n credu bod y rhan fwyaf o fy syniadau yn dod o ddarllen.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Fy mhrif ddiddordeb yw archwilio sut rydyn ni'n newid,



sef beth sydd angen digwydd i alluogi cymeriad i symud ymlaen mewn bywyd. Sorri, falle nad yw hyn yn ateb y cwestiwn!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Sicrhau eich bod chi'n mwynhau'r broses. Mae'r darllenydd yn fwy tebygol o fwynhau os cawsoch chi hwyl wrth ysgrifennu.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau yw'r wefr o greu rhywbeth newydd sbon, rhywbeth nad oedd yn bodoli o'r blaen. A'r peth gwaethaf yw'r perygl o deimlo'n ynysig.

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Yn fy arddegau, mwynheais *Y Mwg Melys* gan Ifor Wyn Williams a *Bob yn y Ddinas* gan Siôn Eirian.

Hoff gymeriad o lyfr?

Lao Tzu (hen ddyn doeth o China).

Hoff lle?

Y ffarm lle ces i fy magu.

Hoff fwyd?

Ffrwythau.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Muriel's Wedding gan P. J. Hogan.

Hoff air?

Pendwmpian.

Y superpower fydddech chi'n ei ddewis?

Dehongli breuddwydion.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Trydar.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?


Cŵn.

Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?

Gwarchodwr natur.

Top tip i ddarpar awduron:

Byddwch fentrus!



Morgan Dafydd

Cadeirydd y Panel

A bod yn hollol onest, doeddwn i ddim yn ddarllen ydd mawr pan oeddwn i'n ifanc, ond roeddwn i'n mwynhau edrych ar lyfrau ffeithiol. Erbyn hyn dwi'n meddwl ei bod hi'n hynod o bwysig fod plant yn dewis y llyfrau iawn iddyn nhw ar gyfer darllen er pleser.

Mae wir yn ffraind cael fy ngwahodd i fod yn feirniad ar gyfer gwobr mor bwysig â Gwobr Tir na n-Og. Mae'n ffordd wych o roi cyhoeddusrwydd i lyfrau newydd yn ogystal â dod â thipyn o sylw i'r byd llenyddiaeth plant ehangach yng Nghymru.



Sara Yassine

Cyn-athrawes

Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen ac roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn – rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn gaeth iddyn nhw.

Mae'n ffraind cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr bydda i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!



Siôn Lloyd Edwards

Myfyriwr Cymraeg

Er fy mod yn Gymro i'r carn, mae'r diolch yn bennaf i Adran Gymraeg wych Ysgol Brynhyfryd am fy helpu i ddisgyn mewn cariad â llenyddiaeth Gymraeg. Yn fy amser hamdden rwyf wrth fy modd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon – pêl-droed yn bennaf. Rwyf hefyd yn hoff o'r celfyddydau. Mae astudio'r Gymraeg yn Aberystwyth wedi agor fy llygaid i nifer o yrfaoedd ac wedi rhoi cyfle imi wthio fy ngalluoedd er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf.

Mae'n ffraind cael bod yn rhan o'r panel beirniaid eleni, ac edrychaf ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd. Diolch am y croeso, a phob hwy!



Francesca Sciarrillo

Llyfrbryf wnaeth weithio gyda gwasanaeth llyfrgelloedd ac sydd bellach yn Swyddog Hyrwyddo Darllen

Heb os, dwi hapusaf pan fydd gen i lyfr yn fy llaw. I mi, mae'r byd yn lle disgleiriach oherwydd llyfrau a'r hapusrwydd maen nhw'n ei roi i'n bywydau.


Dysgais Gymraeg fel oedolyn ac mae llyfrau Cymraeg wedi bod yn allweddol i fi ar fy nhaith i ddysgu'r iaith. Dwi'n caru ein hiaith ni yma yng Nghymru ac wrth fy modd yn darllen straeon sydd wedi cael eu hysgrifennu yn yr iaith Gymraeg.

Felly, mae'n ffraind wirioneddol i mi fod yn un o feirniaid gwobrau mawreddog Tir na n-Og – ac yn brofiad dwi'n gwybod y bydda i'n ei drysori am flynyddoedd i ddod.



Mae'r stori yn canolbwyntio ar siwrne Elis y bachgen, a'i daid, gan greu cymeriadau credadwy a real. Y berthynas glòs hon yw canolbwynt y nofel, ac mae'r cymeriadau'n mynd ar daith, yn llythrennol ac yn ffigurol, wrth iddynt ddygymod â newyddion sy'n chwalu eu credoau a'u meddylfryd yn llwyr.

Yn sgil rhai o'r trafodaethau cyhoeddus blaenllaw a fu o amgylch y mudiad Black Lives Matter yn ddiweddar, mae'r nofel yn teimlo'n hynod o amserol.



Mae'r is-blot am y symbol yn ychwanegu elfen o ddirgelwch at y nofel, ond ei chryfder yw perthynas y taid a'r bachgen, a sut mae'r ddau yn ymdopi â phersbectif newydd.

Mae'r nofel yn plannu syniad ym meddwl y darlennydd, ac yn gofyn i ni gwestiynu rhai syniadau neu arferion yr ydym wedi eu derbyn yn ddigwestiwn yn y gorffennol.



Mae'r awdur yn rhoi tro modern ar hen chwedlau'r Mabinogi. Cafodd y stori ei disgrifio gan rai o'r panelwyr fel cyfuniad o *Harry Potter* a'r *Hunger Games* oherwydd yr elfen hudol sy'n cael ei gosod ym merw bywyd bob dydd; a realaeth hudol yw *genre* hon.




Pendilia'r stori rhwng y prif naratif, sef siwrne bachgen ifanc ar antur hudol, ac ymgais yr heddlu sy'n ceisio datrys dirgelwch llofruddiaeth amheus. Roedd y darnau hyn yn ychwanegu at y stori ac yn cysylltu'r byd go iawn â byd hudol ynys Fosgad. Gan gychwyn â chorff marw, mae'r antur a'r cyffro yn adeiladu trwy gydol y nofel hyd at y frwydr fawr ar y diwedd.

Yr oedd y syniad o gymeriad swil, mud yn un diddorol a gwahanol, a defnyddiwyd italics yn effeithiol i wahaniaethu rhwng monolog bersonol y cymeriad di-sgwrs a gweddill y stori. Byddai'r nofel hon yn apelio at unrhyw un (gan gynnwys oedolion) sy'n hoff o antur, hanes a ffantasi.



Dyma lyfr oedd yn un gwahanol iawn i'r arfer.
Roedd yn braf cael darllen llyfr doniol, clyfar a
ffraeth, sydd yn gwneud i ni wenu yn ogystal â gwneud
i ni ystyried cwestiynau mawr amdanom ein hunain ac
am ein gwlad, drwy lygaid un asyn bach – anifail
sydd wedi cael ei ddiystyru'n hanesyddol.



Mae'r nofel yn taro ar nifer o themâu,
ond o ddarllen ymadroddion fel “na, 'dyn nhw
ddim yn barod”, ac “mae angen i rywun ddangos y
ffordd iddyn nhw”, awgrymir mai cyfeiriadau cynnil at
annibyniaeth i Gymru sydd yma. Os yw'r asyn wedi
gallu trawsnewid ei feddylfryd yn llwyr, tybed a
oes gobaith i ni fel cenedl?

Yn sicr, mae'r nofel yn gorffen ar
nodyn gobeithiol! Nododd mwy nag un
aelod o'r panel nad oedden nhw wedi dod ar
draws llyfr tebyg yn y Gymraeg o'r blaen a'i
fod yn chwa o awyr iach.



Tudalen Nodiadau



Tudalen 17

Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.

Llungopiwch y dudalen yma i bob adolygwr.



Matrics Sgorio



Tudalen 18

Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

Llyfr	Gwlad yr Asyn	Manawydan Jones – Y Pair Dadeni	Powell
Teitl / Broliant /5 Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr? Ydi hi'n amlwg o'r broliant pa fath o lyfr yw hwn? Ydi'r teitl yn addas/effeithiol/apelgar?			
Clawr / Edrychiad /5 Ydych chi'n hoffi'r clawr? Beth sydd yn arbennig am y clawr neu'r ffordd mae'r llyfr yn edrych? Ydi'r clawr yn ychwanegu at y stori? Ydi'r clawr yn chwareus/cyffrous/diddorol yn eich barn chi? Ydi'r clawr yn eich denu?			
Arddull / Iaith /5 Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau Beth yw nodweddion arddull yr awdur? Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd? Oeddech chi'n deall yr iaith? Oedd yr iaith a'r arddull yn ddiddorol?			
Cynnal diddordeb /5 Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr? Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth. Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd? Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof? Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol?			
Cymeriadau /5 Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr? Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/credadwy? Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau? Oedd y cymeriadau yn apelio atoch? Oeddech chi'n gallu uniaethu neu deimlo empathi â'r cymeriadau?			
Cyfanswm /25			

Cardiau Pleidleisio



Tudalen 19

Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2023, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

Powell

☐

Manawydan Jones – Y Pair Dadeni

☐

Gwlad yr Asyn

☐

Powell

☐

Manawydan Jones – Y Pair Dadeni

☐

Gwlad yr Asyn

☐

Powell


☐

Manawydan Jones – Y Pair Dadeni

☐

Gwlad yr Asyn

☐



N	E	L	A	D	U	T	B	S	N	I	Ff	W	H	Y	M
F	A	S	W	LI	I	M	U	Ff	Ch	C	D	Y	S	G	U
B	E	Ch	Y	P	E	N	I	D	L	E	N	F	R	Y	A
S	I	O	P	L	Y	F	R	A	U	W	Y	L	Rh	D	P
I	W	S	E	N	G	A	W	LI	Y	N	P	M	A	A	E
S	D	A	W	D	U	R	T	I	A	L	LI	F	B	R	C
H	T	F	N	A	D	U	Ch	M	R	D	P	Ng	I	L	O
B	L	O	S	Rh	W	F	Ng	E	H	C	S	I	Th	U	Ph
Ff	E	U	R	D	Th	H	Dd	R	Y	P	M	O	F	N	W
W	D	LI	A	I	M	Ng	LI	M	Y	T	A	U	P	I	L
D	A	R	LI	E	N	B	E	Ph	L	L	H	S	Dd	O	I
O	I	D	B	P	Dd	R	G	C	N	Ch	E	Ng	R	F	R
N	M	Ff	W	Th	I	A	R	P	D	Y	Th	H	W	Dd	E
N	T	E	H	A	P	LI	F	N	I	W	L	D	E	S	F
E	Ff	U	D	A	R	W	Y	T	H	LI	Ng	A	M	P	A
P	N	Rh	C	F	D	M	LI	H	U	B	Ch	R	F	Y	LI

LLYFR
CYMERIAD
DARLLEN
CLAWR
DARLUNIO
AWDUR

LLYFRGELL
STORI
TUDALEN
PENNOD
DYSGU
SIOP LYFRAU



2023

Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

Beth am rannu eich profiad
cysgodi ar y cyfryngau
cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
@LlyfrDaFabBooks
a defnyddiwch yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2023
#CysgodiTNNO2023

#CaruDarllen